

**RHAGLEN**

**DATGAN BUDDIANNAU**

Atgoffir yr Aelodau'n barchus bod angen iddynt ddatgan buddiannau personol a/neu ragfarnus mewn unrhyw fusnes i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

1. **YMDDIHEURIADAU**

Derbyn unrhyw ymddiheuriadau a gyflwynwyd ar ran yr Aelodau am absenoldeb.

2. **ADRODDIAD TALIADAU A DERBYNIADAU (ATODLEN A) – MAWRTH 2018**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

3. **ATODLEN O DALIADAU RHEOLAIDD (ATODLEN A) AR GYFER 2018/19**

Derbyn adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

4. **AWDURDODI TALIADAU (ATODLEN B)**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

5. **DATGANIAD TALIADAU ARIAN MAN – 1AF HYDREF 3017 – 31AIN MAWRTH 2018**

Derbyn a phenderfynu ar adroddiad Clerc y Dref (copi'n amgaeedig).

6. **AMRYWIO TELERAU GORCHWYL YR IS-BWYLLGOR CYNNAL A CHADW TIROEDD**

Derbyn adroddiad llafar Clerc y Dref yn hysbysu bod gorgyffwrdd naturiol rhwng cynnal a chadw'r Gerddi Coffa a gwaith yr Is-bwyllgor Cynnal a Chadw Tiroedd a gofyn i'r aelodau ystyried a ddylid cadw'r ddau ar wahân neu gynnwys y gerddi yng nghylch gorchwyl yr is-bwyllgor.

7. **EITEM GAN AELOD**

Y Cyngorydd Mrs W. M. Mullen-James – Gofyn am gefnogaeth y Cyngor i gynnig i'w wneud gan Gyngor Tref y Rhyl i Gyngor Sir Ddinbych i'r Maes Parcio Tanddaearol gael ei wneud yn "*faes parcio diogel*".

8. **EITEMAU GWYBODAETH GAN YR AELODAU**

Derbyn gwybodaeth gan yr Aelodau ar faterion brys sy'n codi, manylion y rhain sydd wedi eu cytuno gyda'r Cadeirydd cyn i'r cyfarfod ddechrau.

**9. GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

Argymhellir, dan Adran 1(2) Deddf Cyrff Cyhoeddus (Derbyn i Gyfarfodydd) 1960, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod wrth ystyried yr eitemau busnes canlynol, oherwydd cyfrinachedd.

**10. CYTUNDEB ARIANNU GYDA CHYNGOR SIR DDINBYCH**

Cydnabod llofnodi'r ddogfen uchod.

**11. GOHEBIAETH A DDERBYNIWYD GAN EISTEDDFOD GENEDLAETHOL YR URDD**

Ymhellach i gofnod rhif 21 y cyfarfod a gynhaliwyd ar 14eg Mehefin 2017, derbyn a phenderfynu ar ohebiaeth a dderbyniwyd gan Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd (copi'n amgaeëdig).

**12. GWAHODDIAD ARFAETHEDIG I ARWEINYDD CYNGOR SIR DDINBYCH**

Derbyn adroddiad llafar Clerc y Dref.

**13. EITEM SEFYDLOG: GORCHMYNION CAU HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Mewn perthynas â Chofnod Rhif 79 cyfarfod y Pwyllgor Cyllid a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd ar 3ydd Chwefror 2016, ystyried unrhyw geisiadau gan Heddlu Gogledd Cymru (manylion i'w dosbarthu yn y cyfarfod os oes angen).

**14. TERFYNU'R CYFARFOD**

Y Cadeirydd i ddirwyn y cyfarfod i ben.